COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mawrth 11eg, 2020 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Alun Jones, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Datganodd y Cynghorydd Robert M. Jones fuddiant personol yng nghais cynllunio C20/0158/39/LL – Morfa, Llanengan, oherwydd ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd ac Eitem 9. Cyfrifon – Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol: Clwb Hoci Pwllheli oherwydd bod aelod o'r teulu ar Bwyllgor y Clwb.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 12fed, 2020 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/0383/39/LL	Diwygio'r Cytundeb 106 sy'n ffurfio rhan o Ganiatâd Cynllunio C15/0383/39/LL er mwyn talu swm cymudol yn lle darparu uned byw fforddiadwy ar Blot 2b – Riverside Hotel and Restaurant, Aber-soch – **Gwrthwynebir. Mynegwyd pe caniateid y cais dylai'r swm cymudol ddod yn benodol i'r gymuned hon yn hytrach nag i'r gronfa sirol. Hefyd, awgrymwyd y dylai Cyngor Gwynedd ei brynu a'i osod i rywun lleol**
C20/0061/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Dymchwel ac amnewid cwt traeth presennol – Cwt Glan Môr Rhif 3, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad na fyddai'n gweddu ac yn ddechrau cynsail o fod yn sylweddol uwch na'r cytiau o'i amgylch wrth agor y to**

C20/0132/39/DT	Addasiadau i annedd i gynnwys codi'r to i greu ystafelloedd ynddo, ffenestr gromen a newid deunyddiau allanol – Camgymeriad, Lôn Traeth, Aber-soch **– Cefnogir (Sylwyd mai 'Proposed Dwelling Extension and Remodel, Y Drifft' sydd ar y cynlluniau)**
C20/0146/39/DT	Estyniad unllawr cefn – Morfa, Llanengan – **Cefnogir**
C20/0158/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd – Nyth y Môr, Bwlchtocyn **– Cefnogir, er y credir ei fod yn orddatblygiad o'r safle a maint y tŷ presennol. Pryderir hefyd am y diffyg mannau parcio oherwydd maint bwriadedig y tŷ newydd er y nodir bod lle i ddau neu dri char o fewn y cwrtil. Anghytunir yn llwyr â'r sylw ym mharagraff cyntaf Pwynt 3. Datganiad Dyluniad a Mynediad pan nodir "yr elwa'r safle o hygyrchedd da i'r rhwydwaith ffyrdd...a llwybr bysiau...â chanol y pentref o fewn 800 metr i'r tŷ."!**
C20/0164/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C16/1336/39/LL er mwyn gostwng lefel y tŷ a gymeradwywyd a chwblhau newidiadau mewnol - Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Cefnogir**
C20/0170/39/LL	Estyniad i adeilad toiled/cawod presennol yn cynnwys toiledau, cawodydd, storfa, man golchi llestri/dillad allanol a chanopi – Maes Carafanau Llain Las, Llanengan **– Cefnogir**
C20/0176/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le - Cae'r Ffynnon, Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad o'r safle, ynghyd â chadw at y sylwadau a gyflwynwyd â chais C17/1051/39/LL ym mis Rhagfyr 2017, sef "mai dymchwel siale ac ystafell haul yn hytrach na thŷ i adeiladu un sy'n ymdebygu i ddau fyngalo llawer rhy fawr iddo" ydyw**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***
Nid oedd dim i'w adrodd.

ii) ***Toiledau'r Bont***
Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts y bu trafferth â larwm yr uchod oherwydd nam trydanol. Hefyd, gosodir cyflenwr dŵr trwy'r Uned AHNE ynddo cyn bo hir.

b) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
Derbyniwyd y cytundeb a gofynnir a gellir ei dychwelyd at ddechrau'r wythnos er mwyn medru ad-dalu yn y flwyddyn ariannol bresennol.

c) **14. Gohebiaeth: ch) Scottish Power – Cyflenwad Trydan Ciosg Llanengan**
Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts bod mwy o waith a gwario i'w wneud ar y safle (gosod cebl newydd) ac y gobeithir ei wneud cyn gynted â phosibl.

ch) **14. Gohebiaeth: ch) Newyddlen Cymdeithas y Clercod (SLCC) – Cyfarwyddiadau Mynediad at Gynnwys Gwefannau'r Llywodraeth**
Cysylltwyd â Delwedd a disgwylir ateb yn dilyn anfon copi o'r uchod. Credir bod rhaid cael tystysgrif SSL fel cynigiwyd i'r Cyngor yn 2018; penderfynwyd archebu un am £44.99 y flwyddyn os bydd rhaid.

d) **14. Gohebiaeth: d) Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) – Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned Aberdaron, Llanengan a Botwnnog ar y Còd Ymddygiad i Aelodau**
Er mynegi diddordeb drannoeth cyfarfod mis Chwefror, ni dderbyniwyd ymateb.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Angen eu trafod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Henaduriaeth.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Nid yw'r tywydd wedi bod o blaid y contractwr i wneud y gwaith.

b) **Mainc Solar**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn – gosodwyd y fainc y llynedd ac fe'i defnyddir gan blant yn ddyddiol, yn enwedig yn ystod y prynhawniau. Fe'i defnyddir gan ymwelwyr a cherddwyr hefyd ac ni dderbyniwyd cwynion amdani na'i chanmol. Yn anffodus, fe'i boddwyd yn y llifogydd a darodd y pentref ym mis Chwefror.

c) **Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch**
Y Cyngor yw perchennog y ffordd a'r goeden. Derbyniwyd adroddiad yr arbenigwr coed – nid oes dim yn bod arni; penderfynwyd anfon copi o'r adroddiad at y cwynwyr a rhoi caniatâd iddynt dorri canghennau yn unol ag o, ynghyd â rhoi rhif ffôn y contractwr iddynt.

8. **CYFRIFON**

a) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**
Derbyniodd y Cyngor llawn awgrymiadau'r Is-bwyllgor – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **Biniau/Trethi Ail Gartrefi**
Nis anfonwyd llythyr parthed yr uchod.

c) **Uned AHNE – Cronfa Datblygu Cynaliadwy 2020 – 2021**
Mae modd ymgeisio am nawdd o'r uchod – cysylltwyd i holi am y posibilrwydd o gael cefnogaeth at brynu mainc solar (gweler cofnod 7b uchod) ond, ni dderbyniwyd ateb hyd yma.

ch) **Llywodraeth Cymru – Cymorth ar Gyfer Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu yn y Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru 2020 – 2021**
Copi o Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar yr uchod yn nodi y cydweithir ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu cynigion creadigol ar gyfer pecyn cymorth i roi hwb i'r seilwaith llywodraethu ar draws y sector.

d) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Atodol Drafft ar yr Egwyddorion sy'n ymwneud ag Ad-dalu Costau Gofal ac Adroddiad Blynyddol 2020**
Ymgynghoriad ar yr uchod a ddaw i ben ar Ebrill 9fed a chopi, er gwybodaeth a gweithrediad, o'r Adroddiad Blynyddol. (Arwyddodd yr Aelodau ffurflen yn gwrthod derbyn y taliad gorfodol o £150.00 fel cyfraniad at gostau a threuliau eisoes.)

dd) **Newid yn Rheolaeth PWLB**
Daeth y newid i rym ar Chwefror 25ain.

e) **Llif Arian/Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol 2019 – 2020**
Aethpwyd trwy'r llif arian diweddaraf cyn paratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn ariannol. Derbyniwyd yr Asesiad Risg a'r Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol – fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb.

c) **Dilyn a Darganfod**
Ni dderbyniwyd ateb i'r mynegi anfodlonrwydd am y diffyg gwybodaeth a hysbysu defnyddwyr am y newidiadau i'r system.

ch) **Ciosg BT – Stryd Fawr, Aber-soch**
Bwriedir gwaredu'r un tu allan i'r siop bysgod a sglodion – fe'i defnyddiwyd pedair gwaith ar hugain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Angen sylwadau cyn Ebrill 6ed.

d) **Gorfodaeth yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb.

dd) **Trigolion Lleol – Cais Cynllunio C20/0037/39/DT Sea Leys, Bwlchtocyn**
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth gymdogion yr uchod yn mynegi eu siomedigaeth mai cefnogi'r cais cynllunio wnaeth y Cyngor hwn – ni dderbyniwyd eu gwrthwynebiadau tan ar ôl cyfarfod mis Chwefror. Fe'i gwrthodwyd gan yr Adran Gynllunio erbyn hyn.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion yn y Gymuned**
Nid oedd dim i'w drafod.

b) **Gorchymyn Cau Ffyrdd – i) Dosbarth III Balaclafa, Mynytho; ii) Di-ddosbarth Lôn Garmon, Aber-soch a iii) Gyferbyn â Phen-y-Gongl, Llanbedrog**
Copi, er gwybodaeth, ar gyfer cau'r uchod ar Chwefror 11eg, 14eg a Mawrth 10fed.

c) **Gorchymyn Cyfyngiad Cyflymder 40 m.y.a. Ffordd B4413 Llanbedrog i Fynytho**
Copi, er gwybodaeth, o'r Rhybudd Cyhoeddus ar gyfer yr uchod – daw'r cyfnod gwrthwynebu i ben ar Fawrth 27ain; penderfynwyd ei gefnogi.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Yn dilyn derbyn gwybodaeth na fydd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawlio Tramwy, ar gael am rai wythnosau, penderfynwyd cysylltu i ofyn pwy sy'n gyfrifol am ei waith yn ei absenoldeb. Derbyniwyd ymholiad oddi wrth un o'r contractwyr am gytundeb eleni - cysylltir ag o i'w hysbysu na lwyddwyd cael trefn iawn ar y llwybrau o hyd.

12. **TRAETHAU**

a) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Padlfyrddio ar Borth Fawr**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach er cysylltu eto.

b) **Uned AHNE – Bin Ailgylchu**
Hysbyswyd y gosodwyd yr Uned fin ailgylchu newydd ger toiledau Golff Aber-soch yn lle'r un cyffredin a oedd yno. Gosodir un tebyg ym maes parcio Foel Gron, Mynytho, hefyd.

c) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Offaxis – Borth Fawr**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth yn gofyn am fwy o wybodaeth o fwriad y busnes uchod.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C19/1106/39/LL	Trosi ac ymestyn ysgubor amaethyddol bresennol yn siop fferm a chaffi **-** Bodlondeb, Sarn Bach - **Caniatawyd ag amodau**
C19/1122/39/LL	Ail-leoli pedwar llain carafán gwyliau presennol (dim cynnydd mewn nifer lleiniau), estyniad bychan i'r safle, ynghyd â thirlunio a gwelliannau amgylcheddol **-** Tal-y-fan Caravan Park, Llanbedrog - **Caniatawyd ag amodau**
C20/0033/39/DT	Dymchwel modurdy/storfa atodol bresennol a chodi estyniad unllawr yn ei le, gwelliannau i'r fynedfa gerbydol a chreu man troi a pharcio **–** Bwthyn, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C20/0035/39/DT	Estyniad unllawr â tho brig, codi to brig dros yr estyniad unllawr presennol a gosod ffenestr do newydd mewn llethr to presennol **–** Ty'n Ffos Isaf, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C20/0037/39/DT	Estyniad llawr cyntaf a newidiadau allanol **–** Sea Leys, Bwlchtocyn – **Gwrthodwyd**
C20/0087/39/DT	Estyniad unllawr ar gefn yr eiddo **–** Rushmere, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C20/0008/39/LL	Trosi cyn-gapel yn uned wyliau – Capel Nant, Nanhoron

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Bwletin mis Chwefror***

ii) ***'Spring Clean' Cymru***
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir rhwng Mawrth 20fed ac Ebrill 13eg.

iii) ***Lleoedd Lleol ar gyfer Natur***
Gwybodaeth am y fenter newydd a ariannir gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at greu, adfer a gwella cannoedd o gynefinoedd ledled y wlad er budd cenedlaethau'r dyfodol.

iv) ***Digwyddiad ULlC ar y cyd â SLCC***
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir ar Fai 20fed yn Ewlo.

v) ***Cofrestrwch eich Diffribiliwr ar y Gylched Heddiw***
Gwybodaeth am sut i gofrestru diffribilwyr ar y rhwydwaith cenedlaethol newydd.

vi) ***Cynhadledd Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020***
Cynhelir un y Gogledd yn Llandudno ar Fawrth 31ain.

b) **Gwasanaeth Economi a Chymuned – Brexit – Cyngor i Drigolion a Busnesau'r Sir**
Gohebiaeth am y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael yng nghyd-destun Brexit.

c) **Paolo Bavaresco – Coed yr Harbwr/Min-y-Don**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth rhyngddo â'r Adran Gynllunio yn mynegi ei bryder parthed dymchwel yr uchod. Awgryma y methodd Cyngor Gwynedd â diogelu'r coed a ddiogelwyd gan Orchymyn Gwarchod Coed yn ystod datblygiad yr Orsaf Bad Achub.

ch) **Adran Tai ac Eiddo – Newidiadau i Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd**
Taflen am yr uchod a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu pobl leol sydd angen tai.

d) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa Merfyn Hughes (Rali Llŷn)**
Hysbyseb y cynhelir yr uchod ar Fawrth 14eg – 15fed.

dd) **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2020**
Gwahoddiad i lansio'r uchod yn Eglwys y Santes Fair, Beddgelert, nos Iau, Mawrth 19eg, ynghyd â thaflen wybodaeth a ffurflen gais.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002277 a 002291) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) TMN Arboriculture – £240.00 (Rh/S 002275 – Archwiliad Coeden)
b) DR Pearson Plumbing and Heating – £57.60 (Rh/S 002276 – Tap Newydd yn y Toiledau)
c) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002278 – Talu Wrth Ennill)
ch) Marie Curie – £150.00 (Rh/S 002279 – Cyfraniad)
d) Cymdeithas Parêd Dewi Sant – £50.00 (Rh/S 002280 – Cyfraniad)
dd) Dawns i Bawb – £100.00 (Rh/S 002281 – Cyfraniad)
e) Clwb Hoci Pwllheli – £200.00 (Rh/S 002282 – Cyfraniad)

f) Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd – £2000.00 (Rh/S 002283 – Cyfraniad)
ff) Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych – £200.00 (Rh/S 002284 – Cyfraniad)
g) Hosbis Dewi Sant – £100.00 (Rh/S 002285 – Cyfraniad)
ng) Ambiwlans Awyr Cymru – £500.00 (Rh/S 002286 – Cyfraniad)
h) Grŵp Mynediad Dwyfor – £50.00 (Rh/S 002287 – Cyfraniad)
i) Teenage Cancer Trust Cymru – £100.00 (Rh/S 002288 – Cyfraniad)
l) Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen – £100.00 (Rh/S 002289 – Cyfraniad)
ll) Theatr Bara Caws – £100.00 (Rh/S 002290 – Cyfraniad)

Derbyniadau

a) Toiledau – £22.00 (Tâl Mynediad – £6.00, £5.00, £11.00)
b) E-on – £12.31 (Credyd Trydan Toiledau Lôn Traeth)
c) Henry Jones (Cricieth) Ltd. – £270.00 (Bedd Newydd)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 8fed, 2020 am saith o'r gloch